

# Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Lle held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Iau, 28ain Medi, 2023 at 10.00 am

## Councillors Present

County Councillor Lisa Dymock (Chairman)

County Councillors: Louise Brown, Emma Bryn, Tomos Davies, Jane Lucas, Jackie Strong, Tudor Thomas, Laura Wright, John Crook, Simon Howarth and Frances Taylor

## Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu  
Mark Hand, Pennaeth Llundio Lle, Tai, Priffyrdd a Llifogydd  
Craig O'Connor, Pennaeth Cynllunio

**APOLOGIES:** Councillors Maria Stevens and Paul Griffiths

### 1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd Emma Bryn fuddiant nad oedd yn rhagfarnus (mae wedi cwblhau ffurflen yn flaenorol.)

### 2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd.

Siaradodd nifer o drigolion gan godi'r pryderon canlynol:

- Mae awgrymu bod tai newydd, sy'n cael eu pwysoli'n drwm ar Lannau Hafren, yn gwrthdaro â'r dyhead i gadw mannau gwyrdd Sir Fynwy, yn enwedig o ystyried gwastadeddau Gwent.
- Dadlau y bydd Magwyr yn cael ei weld fel rhan o goridor trefol rhwng Casnewydd a Chas-gwent, gan fygwth ei statws gwledig, a nodi'r prinder presennol o fannau gwyrdd i breswylwyr
- Awgrymu y dylai fod mwy o dai rhwng Trefynwy a'r Fenni fel lledaenu mwy cyfartal
- Cwestiynu a yw'n gynaliadwy i Lannau Hafren gael 21% o boblogaeth y sir, gyda 1 o bob 3 chartref newydd yn cael eu hadeiladu yno
- Pwysleisio diffyg mannau agored ym Magwyr a Gwndy, a'i fod wedi cael ei orddatblygu ers blynyddoedd, gyda dŵr heb ei drin eisoes yn cael llifo i'r SoDdGA a rhai cartrefi eisoes yn dioddef o lifogydd
- Byddai awgrymu y byddai cael eich 'dan arweiniad amddiffyn' yn hytrach na 'dan arweiniad datblygiad' yn fwy cydnaws â CDLIN sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd
- Gan nodi prinder ardaloedd amwynder o amgylch Langley Close, gydag adroddiad yn 2008 eisoes yn tynnu sylw at ddiffyg 14.4 erw o ddarpariaeth awyr agored ar y pryd

- Pwysleisio pwysigrwydd cadw tir amaeth a chefnogi cymunedau e.e. y teulu a fyddai'n cael eu troi allan o ffermio yn Langley Close, a chwestiynu rhoi datblygiad o flaen iechyd cymuned
- Tynnu sylw at adroddiad blaenorol y cyngor na fyddai unrhyw ddatblygiad yn digwydd ar dir agored ger traffordd neu'n agos ato, ond eto mae'r cynllun hwn yn cynnig gwneud hynny
- Pwysleisio pwysigrwydd cadw Gwastadeddau Gwent a'i thirwedd unigryw, mynegi pryder dros fywyd gwylt, a dadlau bod Strategaeth Werdd y cyngor ei hun yn cael ei hanwybyddu, yn enwedig o ran y potensial Seilwaith Gwyrdd ym Magwyr a Gwndy
- Nodi bod y cynllun hwn yn mynd yn groes i Bolisi Cymru'r Dyfodol 9, sy'n ymwneud â bioamrywiaeth
- Dadlau bod datblygiadau blaenorol fferm Rockfield a Vinegar Hill wedi'u seilio ar y ffordd liniaru a ffordd osgoi Magwyr-Gwndy yn mynd yn ei blaen, ond caniatawyd iddynt frwr ymlaen ac ehangu, gan awgrymu na fu digon o gydweithio â Chyngor Casnewydd ynghylch effaith eu datblygiadau o ystyried y goblygiadau ar y cyd i filoedd yn fwy o gerbydau gael mynediad i'r M4 ar Gyffordd 23A
- Awgrymu nad oes digon o dystiolaeth i ddatgan na fydd lefelau uwch o dwf yn effeithio ar y rhwydwaith ffyrdd, ac nad yw adeiladu miloedd o gartrefi heb y seilwaith angenrheidiol yn ei le'n gyntaf yn gyfrifol
- Gofyn am Aseidiadau Llygredd Aer a Sŵn ar gyfer Magwyr a Gwndy, o ystyried bod problem ansawdd aer eisoes gan dagfeydd traffig yr M4 a'r B4245
- Ailadrodd pryderon isadeiledd, yn enwedig o ran darpariaethau gofal iechyd, siopa a hamdden annigonol yng Nghil-y-coed, gyda thrigolion o'r datblygiadau newydd yn debygol o deithio i rywle arall, ac amlygu'r straen ar y rhwydwaith ffyrdd a diffyg trafndiaeth gyhoeddus briodol
- Mynegi pryderon ynghylch llifogydd yn gwaethygu gan ddŵr ffo pellach yn dod o fwy o ddatblygiadau, a'r effaith ar ansawdd aer a bioamrywiaeth
- Cynnig adeiladu tai cymdeithasol lle mae ei angen, yn hytrach na'u canoli mewn un lle
- Mynegi gwrthwynebiad i Drefynwy gael cynnydd o 230% mewn tai, yn enwedig o gymharu â safleoedd eraill sydd ond yn cynyddu mewn digidau sengl, a phryder am y goblygiadau i Drefynwy o ran gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus gwael, meddygon ac ysgolion oedd wedi gordanysgrifio, a'r her o gael mwy o garthffosiaeth i'w thrin o ystyried y broblem ffosffadau presennol yn Afon Gwy

**3. Strategaeth a Ffeirir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd - Craffu ar Strategaeth a Ffeirir y CDLI Newydd, gan gynnwys unrhyw newidiadau arfaethedig sy'n deillio o'r ymgynghoriad cyhoeddus (adroddiad i ddilyn).**

Cyflwynodd Mark Hand yr adroddiad, rhoddodd Craig O'Connor gyflwyniad, ac fe atebon nhw gwestiynau'r aelodau.

**Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor a Chynghorwyr eraill:**

- Egluro y bydd fersiwn hawdd ei ddarllen o'r adroddiad ar gyfer preswylwyr sydd â dyslecsia
- Gofyn a oes cynlluniau i ddyrannu tir ar gyfer hunan-adeiladu ac a ellid ystyried agor tir fferm Cyngor Sir Fynwy a chynnig lleiniau i'w rhentu
- Gofyn sut mae Trefynwy yn gymwys fel datblygiad cynaliadwy o ystyried ei ddiffyg cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus
- Gofyn sut y gellir cyfiawnhau rhagor o dai yn Nhrefynwy o ystyried yr effaith y bydd hyn yn ei gael ar gefnffordd yr A40, sydd eisoes wedi cyrraedd capasiti, ac nad oes gan breswylwyr unrhyw ddewis heblaw teithiau car preifat
- Herio'r syniad y gall y gwasanaethau bysiau yn Nhrefynwy cael eu defnyddio i gael mynediad i waith yng Nghasnewydd, Henffordd neu Gaerloyw gan nad yw'r gwasanaethau'n aml nac yn ddibynadwy
- Gofyn a yw'n hysbys pa mor gadarn y bydd y broses o gymryd i ffwrdd ffosffad yn y gwelliannau a osodir i'r gwaith trin Dŵr Gwastraff, ac a fydd y rhwydweithiau draenio yn gallu ymdopi â'r capasiti ychwanegol
- Gofyn sut y dewiswyd safle Mounton Road dros Bayfield, o ystyried y 72% o dir amaethyddol gorau a mwyaf amryddawn sydd yno – oni ddylem fod yn datblygu o amgylch yr adnodd naturiol hwn sy'n brin
- Gofyn beth yw'r cynlluniau i ymateb i'r traffig cynyddol o ganlyniad i godi 270 o dai ychwanegol yn Nhrefynwy, a lle bydd y plant ychwanegol yn mynd i'r ysgol, o ystyried bod ysgol gynradd Osbaston eisoes yn llawn - gan ofyn a fydd angen adeiladu seilwaith newydd
- Nodi bod angen ystyried yn briodol tirwedd yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
- Ceisio cadarnhad nad oes mwy o safleoedd tir llwyd y gellir eu hadeiladu arnynt
- Ailadrodd y pryder ynghylch dibynadwyedd ac amllder gwasanaethau bysiau
- Cwestiynu a ddylem fynd i lefel 5,400 o gartrefi newydd o ystyried materion hinsawdd a ffosffadau
- Gofyn a fydd lliniaru ffosffadau trwy waith triniaeth yn ddigonol i ymgymryd â mwy o dwf
- Nodi'r angen i gael swyddi i gyd-fynd â thai
- Gofyn a ellid darparu bysiau mini ar gyfer cludiant i ysgolion Overmonnow a Wyesham i leddfu'r tagfeydd tebygol a achosir gan rieni sy'n gyrru i'r ysgol ar ddiwrnodau glawog
- Cwestiynu a oes modd cefnogi'r cynllun heb ffordd osgoi ar gyfer Cas-gwent a mesurau teithio llesol, yn enwedig gan mai dyma'r pryderon pan wnaeth y pwyllgor graffu ar gynllun Fforest y Ddena

- Tynnu sylw at bryderon isadeiledd: Llywodraeth Cymru'n argymhell ystyried awdurdodau lleol cyfagos; yn achos Cas-gwent, dylai hyn gynnwys y tai sy'n cael eu hadeiladu yn ardal Fforest y Ddena a'r traffig fyddai'n dod i Gas-gwent oddi yno
- Herio'n gryf ystyried Glannau Hafren, Cil-y-coed a Chas-gwent fel ardaloedd ar wahân, yn enwedig o ystyried yr effeithiau traffig yn eu plith.
- Herio safle Mounon Road yn cael ei ystyried fel ardal ar gyfer datblygu, o ystyried ei agosrwydd at gylchfan Highbeech a bod y cyngor wedi pasio cynnig i gefnogi astudiaethau ar gyfer gwelliannau i'r gylchfan honno – mae'n sicr bod datblygu Mounon Road yn gwahardd unrhyw welliannau posib sy'n cael eu gwneud
- Mynnu na all Bayfield na Mounon Road weithio heb welliannau seilwaith, na fydd yn dod gan ddatblygwyr
- Gan nodi bod cais cynllunio DC/2013/00571 ar gyfer Bayfield wedi'i wrthod yn bennaf ar sail tagfeydd traffig yng Nghas-gwent, ac felly yn cwestiynu pam na ddylid rhoi'r un ystyriaeth hon i safle Mounon Road
- Awgrymu y bydd pwysigrwydd y safle o ran gwasanaethu fel croeso i'r sir o ran twristiaeth yn cael ei leihau drwy adeiladu pellach
- Awgrymu na fydd y safleoedd yn hyfyw heb gyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru, gyda miliynau angen gwario ar wella cylchfan Highbeech a chysylltiadau'r M48
- Am 'berthynas ag awdurdodau cyfagos' yn cynnig bod y cyngor yn edrych ar awdurdodau Lloegr hefyd - byddai'n fyr ei olwg wrth edrych ar effaith Casnewydd yn unig, er enghraifft
- Nodi gan fod datblygwyr yn gorfod cael lefel elw o 50%, os aiff mwy o elw i mewn i dai fforddiadwy bydd llai ar gyfer addysg a gwelliannau ffyrdd ac ati sydd eu hangen i liniaru datblygiad
- Awgrymu na fydd darparu dyraniadau tai fforddiadwy o 50% yn digwydd heb arian sylweddol gan Lywodraeth Cymru, a hebdo nid yw'r cynllun yn gadarn
- Mynegi pryderon am ffosffadau a chapasiti carthffosiaeth, yn enwedig o ystyried oedran llawer o'r pibellau
- Mynegi siom a syndod nad yw llythyr Llywodraeth Cymru yn cynnwys seilwaith a thrafnidiaeth yn ei meysydd allweddol
- Gofyn pa waith modelu sydd wedi ei wneud am gyfaint traffig ac allyriadau ar yr A465 i lawr i gylchfan Hardwick yn Y Fenni, gan y bydd tagfeydd yn debygol, o ganlyniad i'r datblygiad yno
- Ceisio sicrwydd ynghylch pam y bwriedir datblygu ar raddfa o'r fath ar gyfer y darn o dir ger cylchfan yr A465 Hardwick
- Awgrymu na ellir edrych ar Ddwyrain Cil-y-coed ar wahân i Lannau Hafren

- Pwysleisio diffyg gofod gwyrdd ym Magwyr a Gwndy, a'r angen am bwyll wrth gymryd mwy yno
- Egluro na fydd y 100 o dai Weinyddiaeth Amddiffyn o ochr bosibl Dwyrain Cil-y-coed yn effeithio ar y nifer sydd angen eu dyrannu ar gyfer tai fforddiadwy
- Mynegi pryderon am draffig ar yr A48 a'r B4245
- Angen cofio lleoedd mewn ysgolion yn ogystal â seilwaith – gofyn am sicrwydd y bydd y datblygiadau angenrheidiol yn digwydd fel rhan o'r cynllun hwn, ochr yn ochr â'r datblygiadau tai
- Ailadrodd pryderon isadeiledd i Fagwyr a Gwndy (yn enwedig meddygfeydd), a phwysigrwydd cadw'r mannau agored yno e.e. yr ardal i'r gogledd o Rockfield, a pheidio ag adeiladu rhagor o ddatblygiadau
- Gofyn pam fod angen newid sefyllfa'r Weinyddiaeth Amddiffyn o ystyried bod llawer o le ar gyfer adeiladu eiddo y tu mewn i'r barics yng Nghaerwent
- Gofyn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pellach ynghylch datblygiad yn ardal Blenheim ac yn Rockfield, gellid cynnal cyfarfod gyda'r holl gynghorwyr dan sylw
- Gan awgrymu, er y gallai 50% o dai cymdeithasol fod yn anodd, mae'n bwysig bod y CDLIN yn uchelgeisiol
- Croesawu cael sail ar gyfer cael pobl ar yr ysgol dai, gan nodi, gyda phwysigrwydd twf a phroblem sir sy'n heneiddio, bod angen cymysgedd o oedrannau
- Pwysleisio'r angen i ddwyn ffermwyr i gyfrif gan ystyried datblygu ffermydd dofednod enfawr yn Sir Fynwy a Phowys a'r broblem ffosffadau yn yr afonydd Wysg a Gwy
- Cwestiynu bod y datblygiad ym Magwyr a Gwndy wedi agor tir i'r cyhoedd, a gofyn ble ydyw
- Gan gyfeirio at ddatblygu 3% o'r sir gyfan, gan ofyn pa gyfran o Fagwyr a Gwndy a Glannau Hafren sy'n cael eu datblygu
- Awgrymu ei bod yn ymddangos bod gormod o gyfaddawdau a diffyg cydbwysedd yn y cynllun
- Gofyn am gysondeb e.e. yn y cynllun diwethaf nid oedd Cil-y-coed wedi cael ei ystyried yn gynaliadwy, ac egluro'r hyn sydd felly wedi newid
- Ailadrodd y diffyg mewn seilwaith trafndiaeth gyhoeddus yn gyffredinol (er yn cydnabod gwelliannau yng ngwasanaethau Cil-y-coed a Chas-gwent), gan nodi bod gwasanaethau bws yn llai aml nawr nag yn ystod y cyfnod cynllunio diwethaf a bod trenau'n ddrytach nag mewn rhannau eraill o Gymru
- Gofyn beth sy'n cael ei wneud i wneud cymunedau'n integredig ac yn hygyrch e.e. nid oes llwybr o hyd rhwng Magwyr a Gwndy a Rhosied, ar ôl blynyddoedd lawer o drafod

- Ailadrodd pryderon am ffocws cul y strategaeth dai fforddiadwy, a mynegi amheuron am ei chyflawni
- Gofyn sut y bydd y CDLIN yn arwain at welliannau yn ansawdd bywyd yr henoed yn Sir Fynwy
- Mynegi amheuaeth ynghylch hyrwyddo cymunedau cynaliadwy oherwydd, er enghraifft, ni fu unrhyw ymgwymerwyr ar gyfer rhan economaidd y tir ym Magwyr a Gwndy, a ddyrannwyd yn 2014, a mynegi pryder y bydd y tir hwn hefyd yn cael ei ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl
- Gofyn beth sy'n cael ei wneud i amddiffyn cyfanrwydd Gwastadeddau Gwent
- Nodi bod lleoedd amwynder ym Magwyr a Gwndy yn brin a gofyn a oes modd eu hehangu nawr gan na fydd ffordd osgoi'r M4, a phwysleisio pwysigrwydd y tir hwn wrth liniaru llifogydd a'i effaith ar y Gwastadeddau
- Awgrymu nad yw'r cynllun yn gyson â'r Argyfwng Hinsawdd a Natur a ddatganwyd gan y cyngor, ac nad yw canolbwyntio ar gartrefi sero-net yn ddigon uchelgeisiol
- Gofyn am gadarnhad ynghylch a yw safle Glan yr Afon yn symud ymlaen, a chynnig nad yw'r 4 safle arall o amgylch Brynbuga yn cael eu cynnwys (cywirodd y swyddog nad yw safleoedd ymgeisiol yn cael eu hystyried fel rhan o'r adroddiad hwn, fodd bynnag)
- Pwysleisio na ddylai'r angen dealladwy am dai fforddiadwy fod ar draul trigolion presennol, nac ychwaith ddirlenwi unrhyw ardaloedd sy'n tagu'n barod
- Mynegi pryderon difrifol am lifogydd, gyda'r Cadeirydd yn meddu ar dystiolaeth bod ardal Canolfan Ddigwyddiadau David Broome wedi gorlifo, a chroesawu taith gerdded gyda swyddogion ar y safle, pe bai datblygiad Heol y Crug yn mynd rhagddo
- Cwestiynu'r cysylltiadau trafnidiaeth yng Nghil-y-coed a nodi'r llai o wasanaethau bysiau yn yr ardal, gan arsylwi ei bod wedi bod yn amhosibl i rai trigolion gael bysiau o Borth Sgiwed oherwydd bod ffordd ar gau
- Nodi'n benodol, gyda datblygiad, y bydd mwy o angen i bobl gyrraedd y gwaith, gan nodi'r angen am orsaf ym Mhorth Sgiwed, sydd wedi cael ei thrafod gyda'r Rheolwr Trafnidiaeth Gyhoeddus, yn enwedig gan y bydd y rhan fwyaf o swyddi i breswylwyr yn debygol y tu allan i'r ardal.
- Mynegi pryder am ddenu busnesau a chyfleoedd cyflogaeth
- Gofyn am gadarnhad bod safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi cael eu hystyried (nododd y swyddog fod y rhain yn rhan o'r Cynllun Adneuo ac felly nid ydynt yn dod o dan yr adroddiad hwn)
- O ran gofod amwynder, gan nodi bod Porth Sgiwed yn debyg i Fagwyr a Gwndy, ac felly os bydd Heol y Crug yn mynd yn ei flaen, bydd y trigolion hynny yn yr un sefyllfa

- Nodi bod cyffordd yr A48 ar gyfer Heol y Crug yn bwynt tagu. Yn achos cerbyd 7.5 tunnell, all cerbyd arall ddim mynd heibio - mae hyn yn bryder, yn enwedig gyda 850 o dai eraill, gan y bydd y traffig yn mynd i'r B4245 lle mae yna niferoedd uchel eisoes, gyda Magwyr a Chas-gwent eisoes yn dagfeydd.
- Mynegi pryder am leoedd mewn ysgolion o ystyried bod ysgol Archesgob Rowan Williams eisoes wedi gordanysgrifio, ac ailadrodd pryderon bod yr ardal yn dagfa
- Nodi, gyda diffyg safleoedd claddu yn yr ardal, bod angen ystyried lle bydd pobl yn cael eu claddu
- Gan nodi bod angen gwelliannau ar ganol tref Cil-y-coed, ac os daw 850 o dai, bydd y bobl yn teithio i Gasnewydd, Bryste a Chaerdydd
- Gan awgrymu bod y CDLI blaenorol wedi methu gan nad oedd yn cyflawni ar dai fforddiadwy, ac y dylai'r cyngor barhau i ystyried cael ei gwmni datblygu ei hun i ddarparu tai
- Nodi pwysigrwydd safleoedd eithrio ar gyfer darparu tai fforddiadwy, a'r posibilrwydd o annog cwmnïau i edrych ar y rhain cyn rhoi safleoedd tir llwyd i ffwrdd
- Gofyn am statws pecyn cymorth y cyngor a ddefnyddiwyd yn flaenorol wrth ddelio â materion tai fforddiadwy
- Tynnu sylw at y cydbwysedd cywir o dai fforddiadwy neu na fydd ddatblygwyr yn adeiladu, a bod angen rhywfaint o dwf yn y sir
- Gan nodi bod staff y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghrughywel yn cymryd llawer o eiddo rhent gan landlordiaid preifat, felly mae angen bod yn ofalus gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn
- Awgrymu nad oes modd cyflawni 50% o dai fforddiadwy ar hyn o bryd

### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae'r pwyllgor wedi trafod yr adroddiad yn helaeth, gyda phryderon aelodau'n canolbwyntio ar yr agweddau canlynol:

- Pryderon ynghylch seilwaith a'r effeithiau posibl ar drigolion presennol, a gan drigolion newydd sy'n dod i mewn i'r ardal – trafndiaeth, a chapasiti addysg ac iechyd
- Mae rhai pryderon difrifol ynghylch dirlawnder ardaloedd llai: cynigir 850 o dai ar gyfer de'r sir a chynigiwyd 607 o dai ar gyfer y gogledd. O ystyried ein bod yn sir mor fawr, awgrymir bod y rheiny yn cael eu gwasgaru'n fwy cyfartal.
- Hoffai aelodau weld strategaeth nad yw mor ddibynnol ar geir. Maen nhw am i'r rhwydwaith ffyrdd gael ei wella ond ni ddylid dibynnu arno mor drwm. Fel y mae'r cynigion hyn ar hyn o bryd, bydd yn rhaid i breswylwyr ddibynnu ar drafndiaeth car
- Pryderon am y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r hyn y mae'n ei olygu i drigolion lleol



- Yr awgrym ein bod yn fwy creadigol: edrych ar gynlluniau eithriadau a fydd yn gweithio gyda sefydliadau Tai Fforddiadwy
- Roedd aelodau'n teimlo bod angen i ni amddiffyn tir amaethyddol
- Mae aelodau eisiau archwilio a oes mwy o safleoedd tir llwyd ar draws y sir – a ydym yn siŵr ein bod wedi dihybyddu'r posibilïadau hynny
- Gofynnodd aelod pa fodelu a wnaed i edrych ar faint o draffig sy'n cynyddu o amgylch ardaloedd penodol
- Pryderon am y diffyg teithio llesol yn ne'r sir
- Amheuan bod y cynigion yn cyd-fynd â datganiad y cyngor o Argyfwng Hinsawdd a Natur
- Pryderon enbyd am effaith y cynigion ar gylchfan Highbeech yng Nghas-gwent a chynnydd canlyniadol mewn tagfeydd a phroblemau traffig yn yr ardal honno

Oherwydd y pryderon hyn, ni wnaeth y pwyllgor gymeradwyo'r argymhelliad.

#### **4. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Lle (adroddiad i ddilyn).**

Tynnwyd sylw'r aelodau at y posibilrwydd o Gaffael Prydau Ysgol yn dod i'r pwyllgor ym mis Rhagfyr neu fis Mawrth, ychwanegwyd Strategaeth Wefru Cerbydau Trydan at 11eg Ionawr, ac mae'r Gweithdy ar 10fed Hydref yn dal i fynd yn ei flaen.

#### **5. Cynllun Gwaith y Cabinet a'r Cyngor**

#### **6. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd y cofnodion, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Strong ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Bryn.

#### **7. Cyfarfod Nesaf: Dydd Iau, 9fed Tachwedd 2023 am 10.00am.**

Dydd Iau 9fed Tachwedd 2023 am 10.00am.

The meeting ended at **1.54 pm**